ARCHDIOCESE
of CARDIFF
ARCHESGOBAETH
CAERDYDD

# ADRODDIAD YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

## Ymgynghoriad ar y cynnig i sefydlu adeilad ysgol newydd i Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn a chynyddu ei gapasiti o 813 o leoedd i 1,050 o leoedd o fis Medi 2025



*Gellir darparu'r ddogfen hon mewn fformatau ac ieithoedd eraill yn ôl yr angen. Cysylltwch â ni drwy ffonio 01446 760239 er mwyn trefnu hyn.*

## TABL CYNNWYS


1. Cefndir ....3

1.1 Y Cynnig: Sefydlu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn a chynyddu ei Gapasiti o 813 o leoedd i 1,050 o leoedd ....3

2. Amlinelliad o'r broses ymgynghori ....3

2.1 Cyhoeddi'r ymgynghoriad....3

2.2 Ymgysylltu â rhanddeiliaid ymgynghori....4

2.3 Gwrthwynebiadau i'r cynnig....4

2.4 Cyfarfodydd ymgynghori ....5

2.5 Cwestiynau'r Ymgynghoriad....5

3. Ymatebion i'r ymgynghoriad ....6

3.1 Crynodeb o'r ymatebion ....6

3.2 Ymatebion i'r Cynnig i sefydlu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn a chynyddu ei gapasiti o 813 o leoedd i 1,050 o leoedd....7

4. Casgliad ....9

4.1 Ansawdd a safonau addysg....9

4.2 Effaith ar y gymuned ....9

4.3 Trefniadau teithio ....10

4.4 Y broses yn dilyn y cyfnod ymgynghori ....10

ATODIAD A - Crynodeb o'r materion allweddol a godwyd gan ymgyngoreion statudol ac ymateb y corff llywodraethu ....12

ATODIAD B - Crynodeb o'r sylwadau a gafwyd o blaid yr ysgol newydd....16

ATODIAD C - Cwestiynau cyffredin ....19

ATODIAD D - ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda phobl ifanc ....20

ATODIAD E – Ymateb gan Estyn....25

ATODIAD F – Cofnodion y Cabinet a Phwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar y cynnig....28

## 1. CEFNDIR

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd o 5 Medi 2023 i 17 Hydref 2023, mewn ymateb i'r cynnig i sefydlu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn a chynyddu ei gapasiti o 813 o leoedd i 1,050 o leoedd. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol i ofyn am sylwadau gan bartïon perthnasol ar newid rheoledig fel y'i diffinnir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018, "y Cod" i gynyddu capasiti'r ysgol.

### 1.1 Y Cynnig: Sefydlu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn a chynyddu ei Gapasiti o 813 o leoedd i 1,050 o leoedd

Yn dilyn trafodaethau gyda Chyngor Bro Morgannwg, penderfynwyd cynnal ymgynghoriad i sefydlu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn a chynyddu ei gapasiti o 813 o leoedd i 1,050 o leoedd o fis Medi 2025. Yn ogystal, bydd y cynnig yn cynnwys canolfan adnoddau arbenigol â 60 o leoedd. Byddai'r adeilad newydd yn cael ei adeiladu ar safle presennol yr ysgol yng nghornel dde-orllewinol tir yr ysgol.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r broses ymgynghori, yn rhoi trosolwg o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yn cynnig rhagor o fanylion am y materion allweddol a'r sylwadau ffafriol a godwyd gan randdeiliaid.

## 2. AMLINELLIAD O'R BROSES YMGYNGHORI

Dilynodd y broses ymgynghori ganllawiau Llywodraeth Cymru, gan gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gan gyd-fynd â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Rhoddodd y broses ymgynghori gyfle i ymgyngoreion ddysgu am y cynnig a chyfle i'r Corff Llywodraethu ac Archesgobaeth Caerdydd glywed barn pawb sydd â buddiant yn y mater fel y gellid ei hystyried cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

### 2.1 CYHOEDDI'R YMGYNGHORIAD

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol drwy ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb a ddosbarthwyd yn electronig i ymgyngoreion penodol ac a gyhoeddwyd ar wefan yr ysgol a Chyngor Bro Morgannwg ar 5 Medi 2023. Roedd copïau papur o'r ddogfen ymgynghori ar gael ar gais.

Mae cyhoeddi dogfen ymgynghori yn ganolog i'r broses ymgynghori ar gyfer ad-drefnu ysgolion, ac mae wedi'i ragnodi gan Lywodraeth Cymru yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Roedd y ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r cynnig sy'n cael ei ystyried, sail resymegol y cynnig a manylion y broses ymgynghori. Roedd y ddogfen

ymgynghori hefyd yn cynnwys ffurflen ymateb unigol. Dywedwyd wrth yr ymgyngoreion fod fersiwn ar-lein ar gael i'w chwblhau.

## 2.2 YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID YMGYNGHORI

Ymgysylltwyd ar y cynnig ag ymgyngoreion rhagnodedig fel y gwelir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Ymgynghorwyd â'r grwpiau canlynol:

**Tabl 1: Rhestr o'r grwpiau yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r broses ymgynghori**

| | |
|---|---|
| Staff (addysgu ac nad ydynt yn addysgu) yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn | Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol |
| Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn | Cyngor Tref y Barri |
| Bwrdd Rheoli Teuluoedd yn Gyntaf / Dechrau'n Deg | Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP) Bro Morgannwg |
| Aelodau Cynulliad (ACau) / Aelodau Seneddol (ASau) / Aelodau Cynulliad Rhanbarthol | Cynghorwyr lleol |
| Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG) | Comisiynydd y Gymraeg |
| Estyn | Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfagos ym Mro Morgannwg |
| Gweinidogion Llywodraeth Cymru | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De |
| Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Lleol | Undebau Llafur |
| Adran Drafnidiaeth y Cyngor | Cyfarwyddwyr Addysg yr Holl Awdurdodau Cyfagos |

Gwahoddwyd ymgyngoreion i lenwi ffurflen ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gellid ei chwblhau ar ffurf copi caled neu ar-lein yn:

Ehangu Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn (bromorgannwg.gov.uk)

Dim ond ymatebion i'r ymgynghoriad a roddwyd yn ysgrifenedig (naill ai drwy'r post neu'r arolwg ar-lein) sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

## 2.3 GWRTHWYNEBIADAU I'R CYNNIG

Ni fydd unrhyw ymatebion a dderbynnir gan ymgyngoreion sy'n gwrthwynebu'r cynigion hyn, er eu bod yn cael eu hystyried fel rhan o'r adroddiad ymgynghori, yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau statudol. Byddai gwrthwynebiad statudol yn rhan o'r cyfnod rhybudd statudol pe bai'n cael ei gymeradwyo ar y cam nesaf gan Gorff Llywodraethu'r Ysgol.

Dylid nodi os yw'r Corff Llywodraethu ac Archesgobaeth Caerdydd o'r farn ei bod yn briodol symud at gam nesaf yr ymgynghoriad statudol, fod cyfle arall i unrhyw ymatebwyr wrthwynebu'r cynigion fel rhan o gam yr Hysbysiad Statudol. Rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost, a'u hanfon i'r cynigiwr cyn pen cyfnod o 28 diwrnod gan ddechrau o'r dyddiad pan gyhoeddwyd yr hysbysiad. Byddai'r hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bro Morgannwg a'i osod wrth neu ger prif fynedfa'r ysgol. Byddai copïau o'r hysbysiad yn cael eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff.

## 2.4 CYFARFODYDD YMGYNGHORI

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys cyfarfodydd staff, rhieni a digwyddiadau galw heibio cymunedol a sesiynau ymgysylltu â disgyblion. Amlygwyd y sail resymegol y tu ôl i'r cynnig ym mhob digwyddiad a rhoddwyd esboniad o'r broses statudol a'r amserlenni dan sylw gyda chyfle i drafod yn agored ymhlith pawb a oedd yn bresennol.

Roedd y sesiynau hyn yn agored i'r holl randdeiliaid yn y broses ymgynghori. Mae adroddiad ar ganlyniad y sesiwn ymgysylltu â disgyblion i'w weld yn Atodiad D.

## 2.5 CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

Gofynnwyd i'r ymgyngoreion am eu barn ar gwestiwn allweddol i bob cynnig:

| |
|---|
| **1) Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i sefydlu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn a chynyddu ei gapasiti o 813 o leoedd i 1,050 o leoedd o fis Medi 2025?** |

Roedd ymgyngoreion yn gallu ymateb Ydw, Nac ydw neu Dim barn y naill ffordd na'r llall i'r cynnig.

Cynigiwyd y cynnig i ymgyngoreion wneud sylwadau pellach hefyd:

| |
|---|
| **Os hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill i'r cynigion, nodwch y rhain isod.** |

| |
|---|
| **Unrhyw sylwadau eraill?** |

# 3. YMATEBION I’R YMGYNGHORIAD

Amlinellir isod yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad yn ysgrifenedig rhwng 5 Medi 2023 a 17 Hydref 2023.

## 3.1 CRYNODEB O'R YMATEBION

Cafwyd 43 ymateb unigol erbyn dyddiad cau’r ymgynghoriad. Nodir dadansoddiad yr ymatebion i bob cynnig yn y tablau a'r siartiau isod.

Nodwyd na roddodd pob un o’r ymgyngoreion ateb i bob cwestiwn a bod rhai ffurflenni'n anghyflawn. Yn yr achosion hyn, rydym wedi derbyn yr ymatebion i’r cwestiynau y maent wedi dewis eu hateb.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi eu rôl mewn cysylltiad â'r cynnig, roedd yr ymatebwyr yn cael ticio mwy nag un opsiwn.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd nodi’r ysgol maent yn gysylltiedig â hi (os o gwbl) mewn cysylltiad â’r cynnig, roedd yr ymatebwyr yn cael ticio mwy nag un opsiwn.

**Tabl 2: Yr ymatebion yn fanwl**

| Atodiad | Disgrifiad |
|---|---|
| **Atodiad A** | Mae crynodeb o’r materion allweddol a godwyd gan ymgyngoreion statudol ac ymateb y Corff Llywodraethu i'r materion hynny i'w gweld yn Atodiad A. |
| **Atodiad B** | Mae crynodeb o'r sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig i'w gweld yn Atodiad B. |
| **Atodiad C** | Mae'r ddogfen cwestiynau cyffredin wedi'i diweddaru i gynnwys y cwestiynau allweddol a godwyd yn ystod y sesiynau ymgysylltu (Atodiad C). |
| **Atodiad D** | Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys sesiynau galw heibio rhieni a chymunedol, cyfarfod staff a sesiynau ymgysylltu â disgyblion. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys yr holl randdeiliaid yn y broses ymgynghori. Mae adroddiad ar ganlyniad y sesiwn ymgysylltu â disgyblion i'w weld yn Atodiad D. |
| **Atodiad E** | Ymatebodd Estyn yn ffurfiol i'r ymgynghoriad. Mae eu hymateb i'w weld yn Atodiad E. |
| **Atodiad F** | Cafodd y ddogfen ymgynghori ei chyflwyno i’r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 20 Gorffennaf 2023. Mae cofnodion y cyfarfod hwn i'w gweld yn Atodiad F, lle darperir argymhellion y Cabinet. |

## 3.2 Ymatebion i'r Cynnig i **SEFYDLU ADEILAD YSGOL NEWYDD AR GYFER YSGOL UWCHRADD GATHOLIG SANT RICHARD GWYN A CHYNYDDU EI GAPASITI O 813 O LEOEDD I 1,050 O LEOEDD**

Fel y gwelir yn Nhabl 3 a Siart 1 isod, roedd yr holl ymatebion (100%) o blaid y Cynnig.

**Tabl 3: Dadansoddiad o ymatebion ymgynghori (Cynnig)**

| Cyfanswm yr ymatebion (unigol): | Cyfanswm o blaid | | Cyfanswm yn erbyn | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Rhif** | **%** | **Rhif** | **%** |
| 43 | 43 | 100% | 0 | 0% |

**Siart 1: Rhaniad yr ymatebion o blaid ac yn erbyn y cynnig.**




Fel Tabl 3 a Siart 1 uchod, cafwyd cyfanswm o 43 o ymatebwyr. Fel y mae Tabl 4 a Siart 2 isod yn ei ddangos, roedd y grŵp mwyaf o ymatebwyr yn aelodau o staff gyda 26 o ymatebion, i gyd o blaid y cynnig.

Y grŵp ymateb mwyaf nesaf oedd rhieni neu warcheidwaid gyda chyfanswm o 13 o ymatebion wedi eu derbyn gan y grŵp hwn.

Dylid nodi bod ymatebwyr yn cael ticio mwy nag un opsiwn (e.e. gallen nhw fod yn rhiant ac yn aelod o staff).

**Tabl 4: Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl rôl**

| Rôl | Cymorth | Yn erbyn | Dim ffafriaeth |
|---|---|---|---|
| Aelod o staff** | 60% | 0.00% | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aelod o Staff*; Preswylydd Lleol | 5% | 0.00% | |
| Rhiant neu warcheidwad* | 30% | 0.00% | |
| Rhiant neu warcheidwad*; Aelod o Staff* | 2% | 0.00% | |
| Rhiant neu warcheidwad*; Rhiant disgybl blaenorol (sydd wedi gadael o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf) | 2% | 0.00% | |
| Cyfanswm | 100% | | |

## Siart 2: Rhaniad yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl rôl



## 4. CASGLIAD

Ar ôl ystyried yr ymatebion a gafwyd drwy gydol y cyfnod ymgynghori, rydym wedi ystyried yr effaith ar ansawdd a safonau addysg, y gymuned leol a threfniadau teithio.

### 4.1 ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG

Cafodd Sant Richard Gwyn archwiliad ym mis Mai 2017. Adroddodd Estyn fod perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol a bod rhagolwg yr ysgol am welliant yn dda. Mae'r adroddiad yn crynhoi:

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4
A2 Gwella ansawdd yr addysgu
A3 Lleihau absenoldeb cyson
A4 Cryfhau'r trefniadau ar gyfer cynllunio gwella

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, daethant i'r casgliad bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal neu ei gwella.

Dywedodd Estyn fod y cynnig yn nodi'n deg y dylai symud i ysgol sydd wedi'i hadeiladu'n bwrpasol arwain at brofiadau addysgu a dysgu gwell trwy ddarparu cyfleusterau addysg fodern. Mae hyn yn cynnwys mannau trafod a Chanolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn ogystal â seilwaith digidol gwell ar draws adeilad newydd yr ysgol sy'n adlewyrchu safonau'r cwricwlwm digidol. Yn ogystal, bydd dyluniad yr adeilad yn debygol o gefnogi addysgeg effeithiol trwy gyfleusterau gwell, ystafelloedd dosbarth o faint safonol a thrwy ddarparu adeilad a mannau awyr agored. Mae'n nodi hefyd y bydd amgylchedd dysgu gwell hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar gefnogaeth ac arweiniad trwy gael ardal awyr agored fwy a gwell i wella lles disgyblion.

Amlygodd Estyn fod y cynnig yn ystyried, i ryw raddau, effaith y cynnig ar ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol ond nid yw'n darparu digon o wybodaeth am ei gynlluniau ar gyfer y ganolfan adnoddau arbenigol.

Amlinellodd Estyn fod y ddogfen ymgynghori yn nodi y bydd yr adeilad ysgol newydd yng nghornel dde-orllewinol tir yr ysgol, gan ganiatáu i'r ysgol bresennol barhau i fod yn weithredol yn ystod y gwaith adeiladu. Argymhellodd Estyn roi mwy o wybodaeth am y cynnig gan nad yw'n rhoi manylion am darfu posibl y cynnig ar ddysgwyr.

### 4.2 EFFAITH AR Y GYMUNED

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i gynnal i bennu unrhyw effeithiau y byddai'r cynnig hwn yn eu cael ar y gymuned leol. Cafodd y cynnig ei asesu ar draws nifer o fesurau.

Mae'r asesiad o effaith yn nodi y byddai'r cynnig yn cael effaith niwtral ar y gymuned leol mewn 2 o'r 8 mesur a aseswyd. Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol mewn 6 o'r 8 mesur a aseswyd. Yn gyffredinol, byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

Byddai'r cynnig yn galluogi'r ysgol i barhau i fod yn llwyddiannus tra'n darparu ar gyfer poblogaeth uwch o ddisgyblion. Byddai'n cynnig amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol fyddai'n gallu addasu i newid, tra'n herio ac yn cefnogi plant i gyflawni eu llawn botensial.

Byddai'r cynnig yn galluogi'r gymuned i barhau i ddefnyddio a rhyngweithio â'r ysgol ac i wneud hynny fwyfwy, drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol a diwallu anghenion yr ysgol ar yr un pryd.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau ar gyfer disgyblion y tu allan i oriau arferol yr ysgol. Cynigir y bydd o leiaf pob cyfleuster presennol ar gyfer rhieni disgyblion a'r gymuned yn parhau os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen.

Casgliad yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yw y byddai'r cynnig i gynyddu nifer y lleoedd ysgol yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn diwallu anghenion y gymuned ehangach yn well, i sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad a'r galw am leoedd. Gellir gweld yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn llawn ar dudalen we yr ymgynghoriad.

## 4.3 TREFNIADAU TEITHIO

Mae goblygiadau traffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried yn rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth fydd angen ei gyflawni er mwyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu pe byddai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu. Nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant rhwng yr ysgol a'r cartref yn sgil y cynnig hwn.

Mae dyletswydd statudol ar Gyngor Bro Morgannwg i ddarparu trafnidiaeth ysgol am ddim i ddisgyblion o oed ysgol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf. Oherwydd bod yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar ei safle gwreiddiol, ni fydd unrhyw newidiadau yn sgil y cynnig hwn ac felly ni fydd unrhyw effaith ar drafnidiaeth i ddisgyblion.

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol i gynnal adolygiad o'i chynllun teithio llesol a bydd yn annog cynifer o ddisgyblion â phosibl i gerdded, beicio neu sgwtera i'r ysgol. Mae Map Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor yn dangos y llwybrau i'r ysgol.

Ni fydd lleoliad adeilad newydd yr ysgol yn effeithio ar y dalgylch.

## 4.4 Y BROSES YN DILYN Y CYFNOD YMGYNGHORI

Yn Adroddiad yr Ymgynghoriad, yn Is-adran Dyddiadau Allweddol y Broses Ymgynghori Statudol (Tabl 9), ceir rhestr o ddyddiadau enghreifftiol ar gyfer y broses statudol. Mae tabl cyfredol o'r dyddiadau allweddol isod.

**Tabl 4: Dyddiadau allweddol cyfredol y broses**

| Proses Statudol | Amserlen |
|---|---|
| Cyhoeddi dogfen ymgynghori | **5 Medi 2023** |
| Dyddiad cau i gyflwyno barn ar y cynigion | **17 Hydref 2023** |
| Yr adroddiad ymgynghori wedi ei ystyried gan y corff llywodraethu ac Archesgobaeth Caerdydd a'i gyhoeddi ar wefan yr ysgol a'r Cyngor | **16 Tachwedd 2023** |
| Rhoi hysbysiad statudol a gwahodd gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol yn ystod y cyfnod hwn | **1 Rhagfyr 2023** |
| Diwedd Cyfnod yr Hysbysiad Statudol | **29 Rhagfyr 2023** |
| Penderfyniad gan y Cabinet (os daw gwrthwynebiadau i law) gydag adroddiad gwrthwynebu. | **Ionawr 2024** |
| Hysbysiad o'r penderfyniad | **Ionawr 2024** |
| Mwy o gapasiti i'w gyflwyno o | **Medi 2025** |

# 1. ATODIAD A - CRYNODEB O'R MATERION ALLWEDDOL A GODWYD GAN YMGYNGOREION STATUDOL AC YMATEB Y CORFF LLYWODRAETHU

Nodir uchod bod yr holl ymatebwyr o blaid y cynnig.  Roedd y themâu a nodwyd a'r ymatebion a gafwyd yn cynnwys sylwadau a gyflwynwyd gan ymatebwyr yn cynnig awgrymiadau ychwanegol neu’n gofyn am wybodaeth ychwanegol fel rhan o'u hymateb.

## 1.1. MATERION A GODWYD MEWN PERTHYNAS Â'R CYNNIG:

THEMA 1
**Tarfu**

Tynnodd yr ymatebwyr sylw at y ffaith y gallai caniatáu i'r ysgol bresennol barhau i weithredu tra bod y gwaith adeiladu yn mynd rhagddo achosi tarfu. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi y gall yr ysgol weithredu’n effeithiol yn ystod y cyfnod adeiladu. Serch hynny, nid yw'r cynnig yn rhoi manylion am darfu posibl y cynnig ar ddysgwyr.

**Ymateb**

Mae'r Cyngor wedi darparu sawl adeilad ysgol newydd dros y pedair blynedd diwethaf fel rhan o raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Cyngor Bro Morgannwg, ac wedi cadw hen adeiladau’r ysgolion hynny ar agor wrth i’r gwaith fynd rhagddo. Lle bu gwaith adeiladu ar hen safle, rhoddwyd cynlluniau ar waith i gynorthwyo gyda dysgu yn ystod y rhaglen ddatblygu. Cafodd dyddiadau a digwyddiadau penodol eu nodi’n rhan o’r rhaglen adeiladu i leihau’r effaith a’r tarfu ar ddisgyblion a staff, yn enwedig o gwmpas arholiadau a digwyddiadau chwaraeon er enghraifft, cymaint â phosibl.

Mae potensial am darfu hefyd wrth symud o’r hen adeilad i’r adeilad newydd. Yn ystod y rhaglen adeiladu, byddai disgyblion a staff yn cael eu gwahodd i sesiynau ymgysylltu i drafod adeilad newydd yr ysgol. Byddai’r sesiynau ymgysylltu hyn hefyd yn cynnwys mapio’r ffordd tuag at agor y cyfleuster newydd a throsglwyddo iddo. Bydd modd i’r disgyblion, staff a llywodraethwyr ymweld â safle’r datblygiad, pan fydd yn ddiogel gwneud hynny, i roi cyfle iddynt weld sut olwg fydd ar yr adeilad ysgol newydd pan ddaw’r gwaith i ben.

Bydd y cynllun i adleoli yn dechrau tua thri mis cyn y dyddiad symud.  Bydd staff yn derbyn arweiniad a chymorth er mwyn dechrau trefnu eu hadnoddau presennol.  Bydd disgyblion yn gweld eu gofodau yn rhithiol hyd nes y bydd yn ddiogel gwneud hynny ar y safle, er mwyn galluogi pawb i ymgyfarwyddo, a thrwy hynny leihau effaith adleoli a newid.

THEMA 2

**Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA)**

Tynnodd yr ymatebwyr sylw at y ffaith nad oes gan yr ysgol bresennol CAA ac nad oes digon o wybodaeth am y cynlluniau i adeiladu canolfan adnoddau arbenigol 60 lle yn yr adeilad newydd yn yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig. Mae'r cynigwyr wedi nodi risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig ar gyfer yr adeilad newydd ac mae wedi rhoi manylion mesurau priodol i liniaru'r risgiau a nodwyd. Fodd bynnag, nid yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig am ganolfan adnoddau arbenigol wedi'u cynnwys. Nid yw'r cynnig yn cynnwys gwybodaeth am drefniadau teithio dysgwyr i'r ganolfan adnoddau arbenigol ychwaith.

**Ymateb**

Nid oes gan Sant Richard Gwyn CAA ar hyn o bryd; mae'n rhoi cymorth arbenigol i blant ag anghenion wedi eu nodi mewn lleoliad cynhwysol yn yr ysgol. Mae Ysgol Uwchradd Whitmore ac Ysgol Uwchradd Pencoedtre wedi cyflwyno unedau CAA yn llwyddiannus yn eu hysgolion, ac mae hwn yn fodel yr hoffai'r Cyngor a'r corff llywodraethu ei gyflwyno yn Sant Richard Gwyn er mwyn darparu lle pwrpasol ychwanegol fydd yn rhoi gwell darpariaeth i ddiwallu anghenion cynyddol ar draws y sector.

Cynigir y bydd adeilad newydd yr ysgol yn cynnwys CAA o fewn y prif adeilad ei hun. Bydd ar y llawr cyntaf, ger y neuadd gyda'i mynediad allanol/grisiau ei hun os oes angen penodol i'r disgyblion osgoi ardaloedd prysur. Mae mesurau priodol i liniaru'r risgiau a nodwyd yn cael eu hamlinellu yn y ddogfen ymgynghori ar gyfer yr adeilad newydd. Mae'r Cyngor wedi cynnal ymarfer gwersi a ddysgwyd i werthuso beth sy'n gweithio'n dda yn yr ysgolion uwchradd eraill a'r hyn y gellid ei wella. Bydd canlyniad y gwerthusiad hwn yn bwydo i mewn i ddatblygiad y prosiect hwn.

Gan fod y prosiect hwn ar gamau rhagarweiniol, byddai'r Corff Llywodraethu'n parhau i weithio'n agos gyda'r Cyngor i nodi'r arbenigedd sydd ei angen ar gyfer y CAA hon. Byddant yn ystyried pa anghenion fydd yn cael eu darparu ar eu cyfer yn y ganolfan ac a fyddant yn ddisgyblion sydd eisoes yn yr ysgol sydd angen gwersi penodol neu gyfnodau o'r dydd i ffwrdd o addysg brif ffrwd, neu fel arall, disgyblion nad ydynt ar y gofrestr yn Sant Richard Gwyn fydd yn mynychu am gyfnodau penodol o'u lleoliad prif ffrwd.

Ar hyn o bryd mae Sant Richard Gwyn yn gwasanaethu dalgylch mawr ac ni chynigir ei newid fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Bydd trefniadau teithio hefyd ar gael i ddysgwyr yn y ganolfan adnoddau arbenigol yn unol â pholisi trafnidiaeth y Cyngor sydd ar waith bryd hynny.

Mae'r holl drefniadau dalgylch a bwydo sydd ar waith yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu hadlewyrchu mewn ymgynghoriad ar drefniadau derbyn yn y dyfodol dan reolaeth corff llywodraethu'r ysgol.

THEMA 3

**Cyllid Cyfalaf**

Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith bod y cynnig yn amlinellu’r costau ariannol, yr amcangyfrifir eu bod yn £62 miliwn. Mae hynny’n cynnwys £52.7 miliwn (85%) mewn arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru trwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a bydd y gweddill yn cael ei ariannu gan y Cyngor.

Fodd bynnag, ni roddir mwy o fanylion ynghylch y cyllid cyffredinol.

**Ymateb i'r pryderon a godwyd**

Mae’r Corff Llywodraethu a’r Archesgobaeth yn ymwybodol bod gan Gyngor Bro Morgannwg hanes ardderchog o lwyddiant wrth gyflawni prosiectau Seilwaith Addysg yn rhan o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (CDC). Mae gan y Cyngor berthynas waith dda gyda Llywodraeth Cymru hefyd, ac mae trafodaethau ynghylch cyflawni'r prosiect hwn eisoes wedi digwydd. Cymeradwywyd y prosiect hwn i'w gynnwys yn Rhaglen Amlinellol Strategol y Cyngor.

Mae'r broses nesaf yn gofyn am gyflwyno Achosion Busnes cadarn a fydd yn seiliedig ar y pum maes allweddol sy'n sail i'r Broses Achos Busnes Gwell (Model Busnes Pum Achos - Strategol, Economaidd, Masnachol, Cyllid a Rheolaeth). Defnyddir y broses hon ar gyfer pob prosiect sydd wedi'i gymeradwyo fel rhan o'r rhaglen. Mae'r cynnig penodol hwn yn cysylltu â llawer o amcanion allweddol yn rhan o Raglen CDC Llywodraeth Cymru, a cheir mwy o wybodaeth am yr amcanion allweddol yn:

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-01/canllawiau-achos-busnes-y-rhaglen-cymunedau-dysgu-cynaliadwy-2022.pdf

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi cyflwyno sawl Achos Busnes drwy’r rhaglenni Ysgolion yr 21ain Ganrif a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy ac mae wedi llwyddo i sicrhau cyllid ar gyfer y cynlluniau a gynigiwyd.

THEMA 4

**Cyllid refeniw ar gyfer Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA)**

Nododd ymatebwyr mai'r gost flynyddol amcangyfrifedig o weithredu ysgol newydd â lle i 1,050 fyddai £5.060M yn seiliedig ar gapasiti llawn o 210 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn gan ddefnyddio dangosyddion ariannu o fformiwla ariannu prif ffrwd

2023/24. Y gyllideb refeniw a ddirprwywyd i ysgol Sant Richard Gwyn ar gyfer 2023/24 oedd £4.125M ar gyfer 836 o ddisgyblion. Byddai'r gost uwch o £935k (nad yw'n cynnwys effaith chwyddiant) yn digwydd yn raddol dros gyfnod o bum mlynedd gan y byddai capasiti uwch yr ysgol yn cael ei lenwi bob blwyddyn o flwyddyn 7. Amcangyfrifir mai'r gost uwch ar gyfer y flwyddyn gyntaf yw £208k a nodir cynllun ariannol addas yn y cynnig. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig wedi darparu manylion costau refeniw blynyddol y ganolfan adnoddau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol am y bydd yn dibynnu ar nifer y disgyblion sydd wedi cofrestru a chymhlethdodau eu hanghenion.

**Ymateb**

Fel rhan o'r cynnig mae lle pwrpasol ar gyfer darpariaeth arbenigol wedi'i gynnwys i roi mwy o hyblygrwydd a chysondeb i'r ysgol ar draws y sector. Mae hyn yn seiliedig ar ddysgu o brosiectau ysgolion uwchradd Cymunedau Dysgu Cynaliadwy eraill ac mae hefyd yn adlewyrchu tuedd gynyddol mewn angen cynyddol. Bydd angen i'r ysgol weithio gyda chydweithwyr yn y Cyngor i ganfod y ffordd orau o ddefnyddio'r lle hwn gan ystyried anghenion yr ysgol a datblygu model addas, gan gynnwys asesiad o oblygiadau refeniw pe bai'r cynnig hwn yn cael ei gytuno.

THEMA 5

**Adeilad newydd sy'n addas i bob disgybl**

Nododd un ymatebydd fod dyluniad presennol yr adeilad yn effeithio ar y disgyblion ag anableddau sydd bob amser angen oedolyn gyda nhw i agor drysau, a bod hyn yn effeithio ar eu hannibyniaeth. Amlygodd yr ymatebwyr hefyd y diffyg lle yn yr ysgol bresennol sy'n effeithio ar ddisgyblion sydd angen cefnogaeth emosiynol. Mae staff yn aml yn chwilio am ystafell yn yr ysgol i siarad â nhw.  Hefyd, nid oes ardal cymorth cyntaf benodol, sy'n golygu nad oes gan ddisgyblion sâl y preifatrwydd sydd ei angen arnynt. Derbyniwyd argymhelliad hefyd ar gyfer toiledau neillryw yn ogystal â rampiau, drysau awtomatig ac ati.

**Ymateb**

Mae'r Corff Llywodraethu a'r Archesgobaeth yn ymwybodol bod y Cyngor wedi datblygu prosiectau ysgolion uwchradd yn flaenorol fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (CDC). Bydd yr ysgol yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor i sicrhau bod yr adeilad newydd yn addas ar gyfer pob disgybl.

Er bod y rhan hon o'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar rinweddau addysg y cynnig, os caiff ei gymeradwyo, bydd dyluniad adeilad newydd yr ysgol yn gwneud y defnydd gorau o'r holl fannau sydd ar gael, gan ystyried anghenion pob disgybl, gan gynnwys sicrhau bod cyfleusterau'n gwbl hygyrch a chynhwysol.

THEMA 6

**Llwybrau teithio llesol addas**

Argymhellodd un ymatebydd hefyd fod angen ystyried llwybrau teithio llesol gyda'r adeilad newydd gan nad yw'r mynediad presennol i'r ysgol yn ddelfrydol. Dylid cynnwys hyn fel rhan o'r cynlluniau ar gyfer yr ysgol.

**Ymateb**

Er bod y rhan hon o'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar rinweddau addysgol y cynnig, os caiff ei gymeradwyo, bydd yr ysgol yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor i lunio cynllun teithio i'r ysgol diwygiedig a bydd yn annog cynifer o ddisgyblion â phosibl i gerdded, beicio neu sgwtera i'r ysgol. Mae llwybrau cerdded/beicio i'w gwella wedi'u nodi yn y Barri ar ein Map Rhwydwaith Teithio Llesol ac mae llwybrau ysgol yn cael mwy o flaenoriaeth.

Bydd yr ysgol yn gweithio gyda'r Cyngor i sicrhau bod cynlluniau teithio llesol yn cael eu hystyried yn ofalus fel rhan o ddatblygiad y prosiect i sicrhau bod llwybrau mwy addas i ddisgyblion.

## ATODIAD B – CRYNODEB O'R SYLWADAU A GAFWYD O BLAID YR YSGOL NEWYDD

THEMA 7

**Nid yw'r ysgol bresennol yn addas i'r diben**

Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod yr ysgol mewn cyflwr gwael ac nid yw'r amgylchedd dysgu ac addysgu yn addas i'r diben. Mynegwyd pryderon ynghylch yr ysgol bresennol. Er enghraifft, mae dŵr yn gollwng o ffenestri, diffyg golau naturiol, coridorau cul, problemau llifogydd, mae'r neuadd yn rhy fach i gynnal gwasanaeth ysgol gyfan, problemau parcio ac ystafelloedd anaddas i gyflwyno'r cwricwlwm.

**Ymateb**

Ysgol Gatholig Sant Richard Gwyn yw'r unig ysgol uwchradd ym Mro Morgannwg sydd heb dderbyn buddsoddiad fel rhan o'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Mae'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn gwbl ymwybodol o'r sefyllfa bresennol yn yr ysgol ac yn cytuno bod angen y buddsoddiad i sicrhau bod disgyblion a staff yn dysgu ac yn addysgu mewn amgylchedd addas i'r diben sy'n adlewyrchu arferion dysgu ac addysgu cyfredol ac sy'n cynnig darpariaeth ychwanegol at ddefnydd cymunedol.

THEMA 8

**Cost uchel atgyweirio a chynnal a chadw a diffyg lle**

Amlygodd yr ymatebwyr ei bod fel cymuned ysgol yn ei chael hi'n anodd cynnal a chadw'r adeiladau, yn benodol rhannau o'r adeilad presennol a godwyd gyntaf o baneli parod yn y 1960au. Roedd yr ymatebwyr yn dadlau bod angen mwy o le mewn adeilad modern i ddiwallu anghenion addysg yr 21ain ganrif.

**Ymateb**

Mae'r Corff Llywodraethu yn ymwybodol o'r problemau yn yr ysgol bresennol gan gynnwys ôl-groniad gwerth £3,485,000 o waith cynnal a chadw. Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â phroblemau gyda'r adeilad presennol, fel problemau gyda'i gyflwr, ei addasrwydd a llifogydd.

Bydd y cynnig yn sicrhau bod yr adeilad newydd yn bodloni safonau adeiladu modern i leihau costau rheolaidd a bod yn garbon sero-net o ran ei weithrediad. Bydd yr adeilad newydd hefyd yn bodloni safonau Rhagoriaeth BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu).

---

THEMA 9

**Problemau capasiti a gorlenwi yn yr ysgol bresennol**

Dywedodd yr ymatebwyr fod adeilad yr ysgol yn hen ac nad yw'n addas ar gyfer nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae'r coridora'n orlawn ac mae potensial am ddamweiniau. Amlygodd yr ymatebwyr eraill nad oes digon o gyfleusterau i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu haeddu drwy gydol y flwyddyn.

**Ymateb**

Byddai'r ysgol newydd yn darparu lleoedd ychwanegol gyda chapasiti ar gyfer 1,050 o ddisgyblion drwy ddull cyflwyno grwpiau blwyddyn yn raddol. Bydd 60 lle ar gael yn CAA hefyd. Rhaid i'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor sicrhau bod yr ysgol yn gwasanaethu ei chymuned leol, yn adlewyrchu'r galw ac yn cefnogi'r galw sy'n dod i'r amlwg. Mae angen ateb y galw yn y dyfodol sy'n deillio o'r datblygiadau tai newydd yn Nglannau'r Barri, Sili, Penarth, a dalgylch ehangach yr ysgol. Byddai adeilad ysgol newydd â 1,050 o leoedd yn darparu ar gyfer y cynnydd a ragwelir yn nifer y disgyblion yn sgil y gwaith datblygu newydd.

THEMA 10

**Ysgol fodern gyda mwy o le a chyfleusterau gwell**

Roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai'r cynnig o fudd i'r disgyblion gan nad yw eu hamgylchedd dysgu presennol yn addas at y diben ac mae'r gofodau yn gyfyngedig. Bydd amgylchedd dysgu'r 21ain ganrif yn annog disgyblion i ffynnu wrth ddysgu. Nododd ymatebwyr eraill y bydd yr adeilad newydd yn rhoi cyfoeth o gyfle i'r lefel

arbennig o addysg barhau, a hynny mewn darpariaeth newydd o'r radd flaenaf. Cynnig yr un adeilad i'n disgyblion presennol a'r dyfodol ar gyfer eu taith addysgol.

**Ymateb**

Mae'r safle presennol yn fach heb unrhyw gyfleoedd i dyfu. Mae'r cynnig i adeiladu ysgol newydd â lle i 1,050 o ddisgyblion yn cynnig model addysg mwy effeithlon a chynaliadwy mewn adeilad a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer amgylchedd dysgu'r 21ain ganrif. Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â materion y mae ymatebwyr eraill wedi'u codi ynghylch yr adeilad presennol, megis y coridorau cul, problemau cynnal a chadw, diffyg golau naturiol. Byddai disgyblion yn cael eu haddysgu mewn adeilad modern o safon uchel fyddai'n gallu cynorthwyo cyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys.

Bydd y cynnig yn sicrhau bod yr adeilad newydd yn bodloni safonau adeiladu modern i leihau costau rheolaidd a bod yn garbon sero-net o ran ei weithrediad. Bydd yr adeilad newydd hefyd yn bodloni safonau Rhagoriaeth BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu).

THEMA 11

**Bydd yr adeilad newydd yn mynd i'r afael â phryderon llifogydd ar y safle**

Cyfeiriodd ymatebydd at yr effaith gadarnhaol ar broblemau llifogydd ar safle'r ysgol mewn tywydd gwael.

**Ymateb**

Er mwyn lliniaru a mynd i'r afael â phryderon llifogydd presennol ac achosion posibl o lifogydd yn y dyfodol, mae arbenigwyr y Cyngor wedi gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau ar y safle yn y dyfodol yn gwella'r pryderon presennol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, defnyddir dull dau gam o ymdrin â'r dyluniad draenio. Mae Cam 1 yn mynd i'r afael â'r broblem llifogydd ehangach gan gynnwys llifogydd oddi ar y safle ar Argae Lane. Mae'r dyluniad arfaethedig yn caniatáu i ddŵr wyneb o Argae Lane fynd i mewn i safle'r ysgol trwy ffos ddraenio benodol. Byddai'r ffos yn teithio o amgylch ffin y safle ac yn draenio'n ôl i system Coldbrook. Bydd cynnwys y ffos ddraenio hon yn lleihau faint o ddŵr sy'n mynd i mewn i'r system. Mae Cam 2 y broses hon yn mynd i'r afael â'r cynnig draenio ar y safle lle bydd sawl nodwedd System Draenio Cynaliadwy (SDC), gorffeniadau athraidd a tho gwyrdd yn helpu i reoli dŵr wyneb ar y safle.

## ATODIAD C - CWESTIYNAU CYFFREDIN

Mae'r adran hon yn darparu cwestiynau cyffredin wedi'u diweddaru yn ymwneud â'r cynnig.

**Beth yw'r amserlen arfaethedig y datblygiad?**

Y bwriad yw dechrau'r gwaith o adeiladu'r ysgol newydd ar ddechrau 2024 a'i gwblhau erbyn mis Medi 2025.

**Pryd byddai staff a disgyblion yn trosglwyddo i adeilad newydd yr ysgol?**

Y cynnig yw y byddai'r ysgol newydd yn weithredol erbyn mis Medi 2025.

**A fyddai pennaeth newydd?**

Byddai pob aelod o staff a gyflogir yn yr ysgol ar y dyddiad symud yn trosglwyddo'n awtomatig i'r safle newydd heb unrhyw newid i delerau ac amodau eu cyflogaeth.

**Sut byddai goblygiadau trafnidiaeth posibl yn cael eu hystyried fel rhan o'r cynnig hwn?**

Byddai tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy y Cyngor yn gyfrifol am y broses adeiladu. Byddai contractwr yn cael ei benodi a byddai asesiad trafnidiaeth llawn yn cael ei wneud fel rhan o'r broses ddylunio.  Byddai unrhyw oblygiadau a nodwyd yn cael eu hystyried wrth ddylunio'r adeilad newydd. Byddai'r contractwr yn cyflwyno cais cynllunio llawn ar gyfer yr adeilad newydd.

**Pwy fyddai'n rheoli'r gwaith o adeiladu adeilad newydd yr ysgol?**

Byddai Tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy y Cyngor yn gyfrifol am reoli'r broses adeiladu. Byddai contractwr yn cael ei benodi gan ddefnyddio fframwaith SEWSCAP. Mae SEWSCAP yn fframwaith adeiladu a ddefnyddir gan 16 awdurdod lleol ac mae'n darparu Contractwyr cymwys a phrofiadol i gyflawni'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, ac adeiladau cyhoeddus eraill, sy'n ymwneud â phrosiectau adeiladu ac adnewyddu newydd dros £1.5 miliwn. Byddai rhaglen ymgysylltu'n cael ei dyfeisio i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael gwybod am y cynnydd a'u bod yn gallu bwydo i mewn i'r broses ddylunio. Bydd cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr ysgol, y Cyngor a'r contractwr.

**A fyddai'r gwaith o adeiladu'r ysgol newydd yn tarfu ar staff, disgyblion a thrigolion?**

Cynigir adeiladu adeilad newydd yr ysgol ar y safle presennol, fyddai'n arwain at rywfaint o darfu ar staff, disgyblion a thrigolion yn ystod y cyfnod adeiladu. Byddai'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i gyfyngu ar y tarfu trwy gyfyngu ar amseroedd dosbarthu a chydweithio gyda rheolwr y safle.

**Sut byddem yn cymryd rhan drwy gydol y broses ddylunio?**

Byddai rhaglen ymgysylltu'n cael ei dyfeisio i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael gwybod am y cynnydd a'u bod yn gallu bwydo i mewn i'r broses ddylunio. Bydd cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Cyngor, y contractwr a'r ysgol. Gellir anfon unrhyw adborth neu sylwadau at y tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn: **Sustainablecommunitiesforlearning@valeofglamorgan.go.uk;**

Bydd unrhyw Gwestiynau Cyffredin pellach a ofynnir yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu hychwanegu at dudalen we yr ymgynghoriad.

## ATODIAD D - YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD GYDA PHOBL IFANC

### GWEITHGAREDD YMGYSYLLTU Â PHLANT YN YSGOL UWCHRADD GATHOLIG SANT RICHARD GWYN

**Ymgynghorwyd â disgyblion Ysgol Uwchradd Sant Richard Gwyn a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo ar ran Cyngor Bro Morgannwg ar y cynnig i sefydlu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn a chynyddu ei chapasiti o fis Medi 2025.**

**Cefndir a Nod**

- Yn eu dogfen ymgynghori ar y cynnig uchod, mae'r Corff Llywodraethu a'r Archesgobaeth yn cydnabod pwysigrwydd gwneud trefniadau addas i ymgynghori â disgyblion a phan yw'n bosibl, y rhai sy'n debygol o fynychu'r ysgol. 'Mae'r corff llywodraethu ac Archesgobaeth Caerdydd yn credu'n gryf y dylid rhoi cyfle i ddisgyblion Ysgol Gatholig Sant Richard Gwyn fynegi eu barn ar y cynnig hwn.'

- Trefnwyd gweithdai ymgynghori gyda chynrychiolwyr yr ysgol a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo ar 25 Medi 2023 i geisio eu barn ar y cynnig.

- Bydd y wybodaeth a gesglir o'r sesiwn yn bwydo i mewn i'r trafodaethau ar yr adroddiad ymgynghori terfynol. Caiff yr adroddiad llawn ei gyflwyno i'r Corff Llywodraethu ei ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

**Methodoleg**

- Gweithdy rhyngweithiol a roddodd gyfle i ddisgyblion drafod a rhannu syniadau gyda'i gilydd.

- Cychwynnodd â thrafodaeth ar ystyr ymgynghoriad a pham y mae'n bwysig siarad â disgyblion

- Daethpwyd i gytundeb ar yr hyn sy'n gwneud trafodaeth/ymgynghoriad da

- Yna esboniwyd pwrpas yr ymgynghoriad iddynt, gan gynnwys y cefndir a'r llinell amser.

- Rhannwyd y disgyblion yn is-grwpiau i rannu a nodi eu syniadau eu hunain. Yna unodd y grwpiau i gael trafodaeth bellach ar y syniadau hyn, yn unol â'r rheolau y cytunwyd arnynt ar ddechrau'r sesiwn.

- Yn dilyn adborth y disgyblion, rhoddwyd gwybodaeth iddynt am y manteision a'r diffygion a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori. Eglurwyd iddynt y byddai eu sylwadau'n cael eu bwydo i mewn i adroddiad ar y sesiwn hon ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor fel rhan o'r dystiolaeth a gasglwyd ar yr ymgynghoriad hwn.

**Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn - Ymatebion disgyblion**

**Beth yw nodweddion trafodaeth/ymgynghoriad da:**

- Mae pob llais yn bwysig
- Safbwyntiau gwahanol
- Dadl – cytuno ac anghytuno

**Manteision y cynllun arfaethedig**

- Mwy o bobl
- Dechrau o'r newydd – mwy modern - apelgar
- Ysgol fwy o faint (mwy o opsiynau TGAU; y cyfle i wneud cyfrifiadureg fel TGAU, seicoleg, troseddeg)
- Mwy o ystafelloedd dosbarth; ystafelloedd astudio pwrpasol
- Gwell cyfleusterau i bobl sydd angen cyfleusterau e.e. ynysu, addysg gorfforol, cerddoriaeth, gwell ystafelloedd TG (Technoleg Gwybodaeth) ac ati; mwy o labordai gwyddoniaeth; gwell offer gwyddoniaeth; capel?
- Dosbarthiadau gwell
- Gwell offer = gwell addysg; gwella dysgu ac agweddau at ddysgu
- Pob athro i gael ei ystafell ddosbarth ei hun; mannau ar wahân ar gyfer gwahanol bynciau
- Mae'n bosib y bydd llyfrgell fwy yn denu disgyblion felly bydd mwy yn ei defnyddio; llyfrgell fwy – gall wneud i bobl ddarllen mwy
- Haws dod o hyd i'ch ffordd o gwmpas
- Cyfleusterau chwaraeon gwell a mwy o faint; cyfleusterau chwaraeon a fyddai'n well o bosibl mewn ysgol newydd, mwy o addysg gorfforol, a graddau uwch ar gyfer TGAU oherwydd mwy o gyfleoedd; amrywiaeth ehangach o chwaraeon
- Mwy o gefnogaeth
- Mwy o gyfleoedd
- Bydd mwy o le a chyfleusterau i ddisgyblion yn gwella meddylfryd, ymdeimlad o les, ac yn sicrhau bod anghenion yn cael eu clywed
- Gwell ar gyfer iechyd a lles
- Llai o lifogydd - draenio gwell
- System aerdymheru ym mhob ystafell
- Gwell cyfleusterau bysus y tu allan
- Bwyd ffresh, nid bwyd sydd wedi mynd yn hen

- Gwell system iechyd meddwl – disgyblion yn cael eu cynnwys yn well, mwy o gefnogaeth

**Anfanteision posibl y cynllun arfaethedig**

- Costio mwy – mwy o athrawon, mwy o staff
- Efallai na fydd pontio'n mynd yn rhy esmwyth
- Yn ddryslyd i ddisgyblion newydd; mwy o le i'w gofio
- Gormod o bobl; mwy o bobl i roi cyfrif amdanynt – llethol; mynd ar goll, yn straen; y berthynas ag athrawon yn llai personol; efallai y bydd rhai pobl yn teimlo eu bod yn cael eu hesgeuluso; mwy o giwiau
- Mwy o ddamweiniau/anafiadau
- Angen mwy o staff
- Gall y toiledau fod yn unrhywiol; sicrhau eu bod yn cael eu gwahanu a phapur toiled mewn cuddyglau
- Rhai lleoedd yn cael eu colli ar gyfer TGAU (yn ystod y cyfnod adeiladu e.e., lle Addysg Gorfforol; dim maes i fyfyrwyr TGAU yn ystod arholiadau ac ati
- Anghyfleustra/tynnu sylw/sŵn yn ystod adeiladu'r adeilad newydd (yn enwedig yn ystod TGAU)

**Cwestiynau:**

- A fydd ganddo unrhyw aerdymheru?
- A fydd cyfle am 6$^{ed}$ dosbarth?

**Awgrymiadau/Syniadau i'w cadw mewn cof gyda'r datblygiad:**

- Hoffwn gael chweched dosbarth i gystadlu â sgiliau eraill
- Mannau cysgodi gwell y tu allan er mwyn peidio â gwlychu
- Delio ag opsiynau bwyd bach; mwy o ddewisiadau bwyd
- Sut byddwch yn sicrhau y bydd blwyddyn 7/8 yn pontio'n dda
- Angen toiledau ar wahân a phapur toiled
- Sain gwahanol ar gyfer y gloch
- Bleindiau
- BSL (Iaith Arwyddion Prydain) – cyflwynwch ddehonglydd a'i wneud yn bwnc gorfodol. Mae'n gwneud yr ysgol yn fwy cynhwysol ac yn haws i bawb.

**Ysgolion Cynradd Sant Joseff a Santes Helen:**

**Beth yw nodweddion trafodaeth dda:**

- Rydym yn dysgu oddi wrtho
- Mae angen i ni siarad yn uchel
- Mae'n rhaid i ni wrando ar eraill
- Angen bod yn agored
- Angen cadw at y pwnc / testun
- Angen rhoi rhesymau dros ein dadleuon
- Mae angen i ni roi ein barn
- Angen rhannu syniadau
- Angen dod i gasgliad

**Manteision y cynnig arfaethedig**

- Bydd yn ysgol fwy
- Gall mwy o fyfyrwyr/pobl ddod i'r ysgol
- Mwy o ffrindiau
- Pobl hapus
- Efallai na fydd unrhyw lifogydd
- Ystafelloedd dysgu gwell
- Ystafelloedd dosbarth mwy
- Mwy trefnus
- Mwy o le
- Mwy o fwyd
- Mwy o doiledau
- Bydd cyfleusterau gwell yn yr ysgol
- Tu allan brafiach
- Mwy o gyfleoedd
- Mwy o gyfleoedd chwaraeon
- Byddai'n fwy diddorol dysgu yn yr ysgol newydd – cael ymennydd mawr

**Anfanteision posibl y cynnig arfaethedig**

- Blwyddyn 7 ac 8 ddim yn mynd i gael eu defnyddio i'r ysgol newydd
- Bydd yn rhy fawr
- Mae pobl yn gwylltio am fod gormod o ystafelloedd
- Bydd synau uchel a allai dorri ar draws gwersi
- Gormod o dorfeydd
- Beth os bydd oedi wrth adeiladu?
- Gall myfyrwyr anghytuno â'r cynllun
- Mwy o siawns o fynd ar goll
- Yr hen ysgol yn cael ei dymchwel
- Bydd mwy o leoedd i lanhau
- Am y bydd yn fwy gallai fod llai o arian i fynd o gwmpas i ariannu cyflogau athrawon, mwy o angen am ddodrefn, defnyddio trydan a dŵr (yn arwain at gwestiwn isod)

**Cwestiynau**

C: Sut ydych chi'n mynd i ariannu'r holl gostau uwch a nodwyd uchod neu a oes gennych chi'r arian hwnnw eisoes? A fydd yr ysgol yn mynd yn fethdalwr?

C: Sut bydd y traffig?

C: A fydd yn gallu gwrthsefyll llifogydd?

**Awgrymiadau/Syniadau i'w cadw mewn cof gyda'r datblygiad:**

- Ardal lles
- Ystafelloedd synhwyraidd; ystafelloedd tawel gyda chi therapi; ystafell therapi i'r plant dawelu, gyda phethau fel lampau lafa a 'fidgets' i'w helpu i ymlacio
- Neuadd fwy
- Oriel gelf
- Dysgu awyr agored

- Siglen ar goeden yn yr awyr agored
- Llyfrgelloedd; llyfrgell fwy
- Ffenestri sy’n gallu agor yn llawn
- Angen sicrhau mwy o fwyd sy'n ystyried alergeddau
- Llwybr heini/cwrs rhwystrau
- Mewn byd delfrydol – un neuadd ar gyfer bwyd a neuadd wahanol ar gyfer gwasanaethau; ardaloedd ar wahân ar gyfer bwyd; ardaloedd eistedd ar gyfer cinio; bwydlen alergeddau; bwydlen lysieuol
- Dydd Mawrth Crempog/Dydd Mercher Wafflau!
- Pwll (a chwrt hoci iâ) i'w defnyddio ar gyfer clybiau ar ôl ysgol!

**Arsylwadau**

- Cefais groeso cynnes yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn a gwnaeth yr holl ddisgyblion a gymerodd ran mor dda yn y trafodaethau grŵp a thîm.
- Roedd staff addysgu yn bresennol ond yn caniatáu i bob disgybl rannu eu barn mewn modd agored a gonest.

## 2. ATODIAD E – YMATEB GAN ESTYN

**Mae’r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.**

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a’r Cod cysylltiedig, mae gofyn i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae gofyn iddo weithredu yn unol â’r Cod, ac nid yw’r Ddeddf yn rhoi unrhyw ofynion statudol ar Estyn yn ymwneud â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, dim ond ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion y bydd Estyn yn cynnig eu barn. Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi rhoi’r ymateb canlynol i’r wybodaeth a roddwyd gan y cynigiwr.

Cynigir sefydlu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn a chynyddu ei gapasiti o 813 o leoedd i 1,050 o leoedd. Bydd y cynnig hefyd yn cynnwys canolfan adnoddau arbenigol â 60 o leoedd.

**Crynodeb/Casgliad**

Barn Estyn oedd bod y cynnig yn debygol o leiaf o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.

**Disgrifiad a buddion**

Mae’r Corff Llywodraethu, yr awdurdod lleol ac Archesgobaeth Caerdydd wedi nodi rhesymeg glir dros ran o'i gynnig. Mae'n amlinellu'n glir manteision niferus adeiladu adeilad ysgol newydd. Mae'n mynd i'r afael â phroblemau gyda'r adeilad presennol, fel problemau gyda chyflwr, addasrwydd a llifogydd. Nododd arolwg cyflwr diweddaraf y Cyngor o'r ysgol, a gynhaliwyd yn 2022, fod yna broblemau sylweddol gyda'r adeilad presennol. Fodd bynnag, nid yw'r ymgynghoriad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y cynnig ar gyfer canolfan adnoddau arbenigol yn yr adeilad newydd.

Mae’r Corff Llywodraethu, yr awdurdod lleol ac Archesgobaeth Caerdydd yn rhoi disgrifiad clir o'r cynnig am adeilad newydd ac yn amlinellu amserlen synhwyrol ar gyfer gweithdrefnau statudol a gweithredu'r cynnig.

Mae'r cynigydd yn nodi'n glir ac yn addas fuddion ac anfanteision disgwyliedig y cynnig am yr adeiladu newydd. Fodd bynnag, gan nad oes gan yr ysgol CAA ar hyn o bryd nid oes digon o wybodaeth yn yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig ar gyfer canolfan adnoddau arbenigol 60 lle yn yr adeilad newydd.

Mae'r awdurdod lleol wedi nodi'n briodol risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig ar gyfer yr adeilad newydd ac mae ganddo fesurau priodol manwl i liniaru risgiau a nodwyd. Fodd bynnag, nid yw’r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig am ganolfan adnoddau arbenigol

wedi'u cynnwys. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac asesiad o’r effaith ar y gymuned fel rhan o'r cynnig hwn.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi tri dewis arall addas i'w gynnig ar gyfer yr adeilad newydd ac yn rhoi rhesymau dilys pam eu bod wedi eu diystyru.

Mae'n ymddangos na fydd y newidiadau’n cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio i ddysgwyr am y bydd adeilad newydd yr ysgol yn cael ei leoli ar safle'r ysgol bresennol yng nghornel de-orllewinol tir yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn cynnwys gwybodaeth am drefniadau teithio dysgwyr i’r ganolfan adnoddau arbenigol.

Mae'r cynnig yn rhagweld cynnydd yn y galw a ragwelir gan ddisgyblion yn yr ysgol, gyda'r angen am ryw 868 o leoedd i ddisgyblion erbyn 2027-28. Ar yr un pryd, bydd yr adeilad newydd yn cynyddu capasiti'r ysgol o 813 i 1,050 o leoedd gan gynnwys y 60 lle yn y ganolfan adnoddau arbenigol.

Mae'r cynigydd yn cyfeirio at ddatblygiadau tai posibl yn y dyfodol sy'n rhan o'r cynllun Datblygu Lleol. Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried yn briodol effaith bosibl datblygiadau tai ar niferoedd a ragwelir.

Mae'r cynnig yn amlinellu costau ariannol y cynnig yr amcangyfrifir eu bod yn £62 miliwn. Disgwylir y bydd y Cyngor yn cael £52.7 miliwn (85%) mewn arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru trwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ar gyfer y prosiect hwn. Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi derbyn cyllid ar gyfer Band A a Band B y rhaglen. Fodd bynnag, ni roddir mwy o fanylion ynghylch y cyllid cyffredinol.

Amcangyfrifir mai'r gost flynyddol o weithredu ysgol newydd â lle i 1,050 fyddai £5.060M yn seiliedig ar gapasiti llawn o 210 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn gan ddefnyddio dangosyddion ariannu o fformiwla ariannu prif ffrwd 2023/24. Y gyllideb refeniw a ddirprwywyd i ysgol Gatholig Sant Richard Gwyn ar gyfer 2023/24 oedd £4.125M ar gyfer 836 o ddisgyblion. Byddai'r gost uwch o £935k (nad yw’n cynnwys effaith chwyddiant) yn digwydd yn raddol dros gyfnod o bum mlynedd am y byddai capasiti uwch yr ysgol yn cael ei lenwi bob blwyddyn o flwyddyn 7. Amcangyfrifir mai’r gost uwch ar gyfer y flwyddyn gyntaf yw £208k a nodir cynllun ariannol addas yn y cynnig. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn gallu darparu manylion costau refeniw blynyddol y ganolfan adnoddau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol am y bydd yn dibynnu ar nifer y disgyblion sydd wedi cofrestru a chymhlethdodau eu hanghenion.

**Agweddau addysgol y cynnig**

Mae'r cynigydd yn ystyried agweddau addysgol y cynnig yn addas. Mae'n nodi gyda manylion defnyddiol ganlyniadau arolygiad diweddaraf Estyn ac argymhellion yr ysgol ar gyfer gwella ynghyd ag archwilio argymhellion addysg enwadol. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn ystyried sut y bydd symud i'r safle newydd yn effeithio ar waith yr ysgol wrth fynd i'r afael â'r argymhellion hyn.

Mae'r awdurdod lleol yn ystyried yn briodol effaith y cynigion ar ansawdd a safonau addysg, yn cynnwys safonau, lles, agweddau at ddysgu disgyblion, addysgu, a phrofiadau dysgu, cymorth gofal, arweiniad, arweinyddiaeth a rheolaeth. Er enghraifft, mae'r cynnig yn nodi'n deg y dylai symud i ysgol sydd wedi'i hadeiladu'n bwrpasol arwain at brofiadau addysgu a dysgu gwell trwy ddarparu cyfleusterau addysg fodern. Mae hyn yn cynnwys mannau trafod a Chanolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer meysydd dysgu ychwanegol, seilwaith digidol gwell ar draws adeilad newydd yr ysgol sy'n adlewyrchu safonau'r cwricwlwm digidol. Yn ogystal, bydd dyluniad yr adeilad yn debygol o gefnogi addysgeg effeithiol trwy gyfleusterau gwell, ystafelloedd dosbarth o faint safonol a thrwy ddarparu adeilad a mannau awyr agored. Mae'n nodi ymhellach y bydd amgylchedd dysgu gwell hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar gefnogaeth ac arweiniad trwy gael ardal awyr agored fwy a gwell i wella lles disgyblion.

Mae'r cynnig yn ystyried, i ryw raddau, effaith y cynnig ar ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol ond nid yw'n darparu digon o wybodaeth am ei gynlluniau ar gyfer y ganolfan adnoddau arbenigol.

Mae’r awdrdod lleol yn nodi y bydd adeilad newydd yr ysgol yng nghornel de-orllewinol tir yr ysgol, gan ganiatáu i'r ysgol bresennol barhau i fod yn weithredol yn ystod y gwaith adeiladu. Maent yn nodi y gall yr ysgol bresennol redeg yn effeithiol yn ystod y cyfnod adeiladu serch hynny, nid yw'r cynnig yn rhoi manylion am yr amharu posibl ar ddysgwyr yn sgil y cynnig.

## 3. ATODIAD F – COFNODION Y CABINET A PHWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT AR Y CYNNIG

**CABINET**

**Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2023.**

**YMGYNGHORIAD C71 AR Y CYNNIG I DDARPARU ADEILAD NEWYDD**
**AR GYFER YSGOL UWCHRADD GATHOLIG SANT RICHARD GWYN (EAWL) (CRAFFU –**
**DYSGU A DIWYLLIANT)**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd hysbysu’r Cabinet am yr ymgynghoriad ar gynnig i ddarparu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn ar ei safle presennol o fis Medi 2025.

Gwnaeth y Cynghorydd Birch y pwynt y byddai goblygiadau newid yn yr hinsawdd a natur yma, ond y byddai elfennau adeilad newydd o'r rhaglen dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn bodloni sgôr ragorol Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) ar gyfer lleihau'n sylweddol y costau rhedeg a'r allyriadau carbon a oedd yn deillio o'r adeilad, sydd yn uchelgais i’r Cyngor.

Dywedodd yr Arweinydd bod llawer o gyffro yn yr ysgol y byddai'r cynnig yn symud ymlaen i ymgynghoriad ac roedd yn edrych ymlaen at dderbyn canlyniadau'r ymgynghoriad ym mis Hydref.

Roedd hwn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno. Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a’r goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD -

(1) BOD penderfyniad y Corff Llywodraethu i gynnal cyfnod ymgynghori rhwng 5 Medi 2023 a 17 Hydref 2023 ar y cynnig i wneud newid wedi ei reoleiddio i'w hysgol i gynyddu capasiti Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn o 813 o leoedd i 1,050 o leoedd o fis Medi 2025 yn cael ei gymeradwyo.

(2) Y BYDDAI gweithredu'r cynnig yn amodol ar brosesau statudol perthnasol ac y byddai cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru yn amodol ar gymeradwyo achos busnes trylwyr.

(3) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio i Bwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant i'w ystyried fel rhan o'r ymarfer ymgynghori arfaethedig.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Nodi penderfyniad y Corff Llywodraethu i ofyn am adborth drwy ymgynghoriad ffurfiol â rhanddeiliaid rhagnodedig, cyn cyhoeddi ei gynnig, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

(2) Nodi y byddai gweithredu'r cynnig yn amodol ar y prosesau statudol perthnasol ac y byddai cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru yn amodol ar gymeradwyo achos busnes trylwyr.

(3) Sicrhau yr ymgynghorir â Phwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ynghylch y cynigion.

PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cyfarfod o Bell, 14 Medi, 2023.

EITEM AR YR AGENDA YMGYNGHORIAD AR Y CYNNIG I DDARPARU ADEILAD NEWYDD AR GYFER YSGOL UWCHRADD GATHOLIG SANT RICHARD GWYN -

ARGYMHELLIR – BOD Cyfeiriad y Cabinet a’r Ymgynghoriad a atodwyd ar y cynnig i ddarparu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn cael eu nodi.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Ar ôl ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad ar yr Ymgynghoriad ar y cynnig i ddarparu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, ac i drafodaethau yn y cyfarfod.